Cofnodion cyfarfod rithiol 12 Ionawr 2021 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Cynog Prys	
Lliwen Griffith-Williams	Nerys John	
Iwan Huws	Emyr Gareth	
Casi Roberts	Dafydd Huws	
Llŷr Evans	Eifion Williams	
Elliw Williams	Iestyn Harris	
Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws.	
1.1	Moel y Don – dwyedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfarfod rhithiol gyda Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanddaniel. Rhoddwyd eglurhad o'r hyn drafodwyd – mae cofnod o'r cyfarfod i'w weld yn yr atodiad.	
1.2	Cydnabod Aelodau o'r Gymuned – cafwyd y diweddariad am y cynllun hwn gan y Cynghorydd Casi Roberts. Dywedodd ei bod wedi cael prisiau rhwng £25 hyd at £75. Roedd maint y baner yn 8 x 2.5 troedfedd. Bydd y faner yn cael ei lleoli ger y Cloc – Y Clerc i anfon at Y Tad Dylan ar gyfer cael caniatad. Bydd y Cynghorydd Casi Roberts yn anfon y dyluniad ymlaen i bawb. Roedd yr Aelodau'n gefnogol i'r cynllun symud ymlaen ac i'r faner gael ei osod ar y safle cyn gynted a mae modd.	**CLERC**
1.3	Cyfarfod ynglŷn â Torri Gwair ar Lan y Môr - dywedodd y Cynghorydd Eifion Williams ei fod wedi cyfarfod ar y safle gyda Geraint Hughes, Wyn Morris Gwynfor Hedd. Penderfynwyd yn y cyfarfod bod un toriad i'w wneud ar gyfer anfoneb eleni. Oherwydd bod cerrig ar y tir oherwydd y prosiect gobeithir bydd cwmni'r prosiect yn gwneud y toriad gyntaf. Ni fydd yr ardal sydd wedi cael gwair newydd yn cael ei dorri. Gofynnwyd yn y cyfarfod i warchod rhan o'r tir sydd yn wlyb ar hyn o bryd er mwyn trio rhoi seibiant iddo rhag defnydd. Gweler cofnod o'r cyfarfod yn yr atodiad.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Adroddiad gwariant am fis Rhagfyr. Nid oedd yn gallu rhoi ac atodlen oherwydd nid oedd wedi derbyn datganiad o'r banc, ond roedd yn gallu sicrhau bod £66,335 yn y banc. Er and oedd llawer o wariant wedi bod hyd yma ond mae angen talu am offer y cae chwarae a bydd gwariant ar y Neuadd.	
4.2	Gosod Praesept – cafwyd argymelliad gan y Swyddog Ariannol ei bod yn anodd ystyried gwariant am y flwyddyn sydd i ddod oherwydd y sefyllfa a'r coronafeirws ond yn sicr ni ddylai gostwng swm y praesept, felly dywedodd byddai	

	aros a'r swm £40K am y flwyddyn yn ddigonol. Cynnigwyd dilyn argymhelliad y Swyddog Ariannol a chytunwyd ar hyn.	
4.3	Mae Adroddiad DBO wedi ei dderbyn. Cwblhawyd yr archwiliad ganddynt ar yr 21 o Ragfyr 2020 gyda'r Swyddog Ariannol yn ei dderbyn ar yr 23 ain o Ragfyr 2020. Yr unig faterion sydd wedi ei godi yw nad oes cofnod bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad a bod y cyfrifon allan o £1. Mae cyfrifon y Cyngor yn cael eu cwblhau drwy talgrynnu'r ceiniogau ac oherwydd hyn roedd y cyfrifon yn dangos eu bod allan o £1. Cofnodwyd yn y cyfarfod hwn bod y Cod Ymddygiad yn cael ei fabwysiadau yn ffurfiol a bydd hyn yn cael ei wneud yn flynyddol o hyn ymlaen yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.	**CLERC**
4.4	Bydd yr archwiliad o flwyddyn yma yn cael ei wneud gan Archwiliad Cymru. Bydd y patrwm o eleni yn newid. Derbyniwyd gohebiaeth yn dangos eu bod wedi gosod y Felinheli yn Ynys Môn, ond bellach mae hyn wedi ei newid. Eleni a blwyddyn ariannol nesaf 2021- 2022 bydd Y Cyngor hwn yn derbyn archwiliad sylfaenol ac yna yn 2022 - 2023 yn derbyn archwiliad llawn. Nid oes fwy o wybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â sut bydd yr archwiliad yn cael ei wneud.	
4.5	Dywedodd y Cadeirydd y byddai yn trefnu i'r Clerc a'r Swyddog Ariannol gaelgwerthusiad un i un drwy ddefnyddio offer Zoom.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Rhagfyr gydag ychydig o fan newidiadau	**CLERC**
5.2	Paentio'r Toiledau - dywedodd y Clerc yn dilyn cyfarfod misol Rhagfyr bod y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths wedi cysylltu â'r adain berthnasol ynglŷn â'r toiledau a'u bod hwythau wedi anfon at y Clerc. Mewn egwyddor maent yn barod i'r Cyngor Cymuned baentio'r adeilad a hyd yn oed paentio murlun arno ond bod angen i'r Cyngor anfon cynllun atynt. Hefyd gofynnwyd a oedd angen hawl cynllunio. Dywedodd y Clerc nad oedd angen hawl cynllunio gan iddi wneud ymholiadau ar hyn. Trafodwyd y mater o'r murlun a phenderfynwyd mai paentio'r adeilad byddai orau am y tro. Y Cynghorydd Daniel Williams am wneud ymholiadau ar gyfer derbyn prisiau.	**DW**
5.3	Bydd Y Cynghorydd Casi Roberts yn trio cael gafael ar y garddwr, roedd wedi gwneud paratoadau ar gyfer ei weld ond roedd wedi mynd yn sâl..	**CR**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	Rhif Cais .: C20/0969/20/LL Lleoliad : A Cut Above, A Cut Above, 25 Stryd Bangor, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JE Bwriad : Cais ar gyfer newid defnydd siop trin gwallt i dy preswyl **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.2	Rhif Cais : C20/1019/20/LL Lleoliad :Y Gelli Gyffwrdd, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QN Bwriad: Cais ar gyfer gosod 8 'tipi' ar leccynau sefyll caled ar	

	gyfer defnydd gwyliau, gosod 2 floc toiledau a chawodydd, llecynau sefyll caled newydd, mewnosod gorsaf pwmpio carthffosiaeth newydd, tanc dwr a gwaith tirlunio cysylltiedig **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.3	Rhif Cais: C20/0897/20/LL Lleoliad 3, Elim Cottages, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JR Proposal: Newid defnydd safle o safle parcio a thrwsio bysus/loriau i safle ar gyfer storio cyfarpar offer busnes peirianneg sifil ynghyd a chodi sied storio newydd a ffens diogelwch. – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
6.4	Rhif Cai: C21/0041/20/LL Lleoliad : Fferm Parciau, Caernarfon, LL55 1TS Bwriad: Codi sied amaethyddol ar gyfer cynnal a chadw cyfarpar amaethyddol, da byw ar gyfer pwrpas cwarantin ac i storio porthiant. – **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Nid yw Mainc ger Stepiau Cei wedi ei wneud hyd yma ond mae a'r rhestr y contractwr i'w gwblhau. Y Cynghorydd Daniel Williams am atgoffa'r contractor.	**DW**
7.2	Roedd ebost wedi ei dderbyn gan drigolyn o Brynffynnon yn cwyno am faw ci ar lwybr troed rhif 17 a hefyd oherwydd baw cwn yn cael ei adael mewn bag ar Ffordd Brynffynnon. Bydd y Clerc yn ymateb i'r trigolyn. Trafodwyd y mater yma yn helaeth. Dywedodd y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths bod y mater yma am ei drafod ymhellach gan Gyngor Gwynedd. Efallai bydd yna "Task Force" yn edrych eto ar hyn. Trafodwyd bod angen newid ymddygiad. Bydd angen i'r Cyngor Cymuned anfon at Gyngor Gwynedd i rhoi pwysau ar yr adain berthnasol. Y Clerc i anfon at yr uned i wneud cais am gamerau cudd. Gofynnwyd oes modd i wardeiniaid cŵn Cyngor Gwynedd i ddangos presenoldeb? Cafwyd gwybodaeth bod y warden wedi bod ger yr ysgol yn ddiweddar. Dim ond un warden sydd i Arfon, un i Ddwyfor ac un ar gyfer Meirionnydd. Ystyriwyd cystadleuaeth rhwng y Cyngor Cymuned ar Ysgol Gynradd i wneud poster ar gyfer addysgu perchnogion cwn i lanhau ar ol eu cwn neu i fynd a'r bagiau baw adref gyda hwy neu i'w rhoi yn y biniau berthnasol. Symudwyd y drafodaeth a phenderfynwyd gwell fyddai gweithio a'r ysgol i wneud cynnwys digidol. Y Cynghorydd Iestyn Harris i drafod a'r ysgol. Y Cynghorydd Elliw Williams i gynorthwyo gyda'r cynnwys digidol. Efallai ystyried cael ambassador ifanc i'r pentref. Y Cynghorydd Nerys John i dynnu sylw ar y mater dwy ddefnyddio tudalen Facebook y Cyngor a'r Cynghorydd Casi Roberts i wneud yr un peth gan ddefnyddio gwefan y Cyngor. Dywedodd Gareth Griffiths bod angen i bobl ynghyd a'r Cyngor Cymuned, ac yntau i gofnodi y digwyddiadau ar App Gwynedd, yna bydd yr ystadegau yn dangos y broblem.	**CLERC**

	Fe ymledwyd y drafodaeth i gofnodi bod angen i berchnogion gadw eu cŵn ar dennyn oherwydd mae cwm yn ddiweddar wedi lladd ac anafu defaid ar dir oddi ar y lon las. Roedd cerdded ar lwybrau y pentref yn boblogaidd yn yr amser anodd hyn.	
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Cafwyd gwybodaeth bod giât ochr y Wern Llwybr Cerrig yr Afon wedi torri - bydd y Cynghorydd Gareth Griffiths yn delio a hyn.	**GG**
8.2	Dywedodd y Clerc eu bod wedi siarad â'r Swyddog Geraint Jones ynglŷn â chyfarfod digidol ag ef a phennaeth yr adain llwybrau. Roedd yn ymwybodol and oedd cyfarfod wedi bod oherwydd nid oedd wedi derbyn dyddiadau oddi wrth y pennaeth. Bydd yn cysylltu â'r pennaeth yn brydlon i'w atgoffa. Bydd mewn cysylltiad mae o law. Cafwyd wybod gan Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd bod arian wedi ei neilltuo ar gyfer gwelliannau i Lwybr rhif 16 rhwng Brynffynnon a Ffordd Gaernarfon. Cafwyd adroddiad bod pryder yn parhau ynglyn a ffens ar Lwybr Cerrig yr Afon. Roedd Y Cynghorydd Eifion Williams am holi contractor ynglŷn â'r ffens.	
8.3	Dywedodd y Clerc bod y Swyddog hefyd wedi ymweld â Llwybr Afon Heulyn. Roedd erbyn hyn wedi derbyn cadarnhad enw a chyfeiriad perchennog newydd y goedwig a'r wal ar hyd y llwybr. Roedd wedi gadael neges yn y cyfeiriad gan nad oeddynt gartref. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd byddai'r Clerc yn anfon ar y swyddog ar gyfer derbyn copi o'r asesiad risg i'r llwybr oherwydd peryg y llechi.	
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Dim i'w adrodd	
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Cae Chwarae - Y Cynghorydd Elliw Williams yn datgan bod angen i OBR ddod yn ol ati gyda dyddiad. Nid yw Cyngor Sir heb dderbyn Method statement ychwaith. Gobeithir cael ymateb gan OBR yn fuan.	**EG, EW**
10.2	Mae'r prosiect wedi ei gwblhau dim ond ychydig o snags yn parhau. Mae rhai o'r cerrig ar y wal yn rhydd a bydd y rhain yn derbyn gwaith. Ynglŷn â gweithredu'r giatiau bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod i gyfarfod misol Chwefror. Gofynnwyd a yw'r slabiau ochr Gaernarfon wedi eu tynnu i ffwrdd neu wedi eu claddu? Bydd hyn yn cael eu harchwilio. Cafwyd gwybodaeth bod llwybr ger wal ar ochr y Fenai mewn cyflwr drwg a bod angen gwaith arno. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd. Hefyd cafwyd gwybod bod bwriad i symud agoriad i'r Cae Chwarae i ochr mynedfa mae parcio'r Clwb Hwylio. Golygai hyn bydd y plant yn dod allan i fynedfa'r maes parcio yn hytrach nag yn syth i'r lon. Gobeithir bydd yn hyn ddiogelach. Hefyd mae'r Clwb Hwylio wedi gwneud cais ar gyfer hard standing i roi biniau yno. Mae hyn i gyd yn dibynnu am gael hawl gan Crown Estates sydd yn berchen ar dir y Clwb hwylio sydd gyda Les.	**CLERC** **Ebost wedi ei anfon**

	Y Tir gyferbyn a'r garddfon yn parhau i fod yn wlyb. Y Clerc i anfon at yswyddog perthnasol i ofyn i hyn gael sylw cyn bod y cpntractwyr yn symud oddi ar y safle. Mae bolardiau gyda a clo wedi eu gosod ar Lan y Môr, bydd allweddi yn cael eu rhoi I drefnwyr Gwyl y Felin ag I'r adran forwrol.	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Dim y neuadd yn parhau i fod ar gau.	**DW**
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC**
13.0	Materion eraill - Mae cais wedi ei dderbyn ynglŷn ag ardal trwyddedu'r byrddau ger y Garddfon. Y Clerc i wneud ymholiadau a'r adran eiddo.	
14.0	Cae Ysgol - dim fwy o wybodaeth i law.	**CLERC**
1.0	Bydd rhai materion yn parhau ar yr agenda hyd nes byddant wedi eu datrus sef – Japanese Knotweed a'r ffordd lawr i'r Marina.	**CLERC**
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:04	
Llofnod:		**Dyddiad:**

ATODIAD

Cyfarfod Rhithiol Nos Fercher 6 Ionawr 2021 am 7 yn yr hwyr rhwng Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanddaniel a Chadeirydd Cyngor Cymuned y Felinheli.

Yn Bresennol

Y Cynghorydd Martin Kelly-Roberts
Cynghorydd Iwan Huws
Heather Jones – Clerc Cyngor Cymuned y Felinheli

Agorwyd y cyfarfod a chyflwynodd y Cynghorydd Iwan Huws Adroddiad bras ar gefndir pam oedd angen y cyfarfod rhwng y ddau Gyngor.
Mae cwynion wedi dod i law oddi wrth drigolion y Felinheli am y cynnydd sydd wedi bod o'r Jet Skis yn lansio o'r gofod sydd rhwng llithrfa Plas Coch a Maes Parcio Cyngor Ynys Môn yn Moel y Don. Mae hyn wedi bod yn nodweddiadol hyd nes ail agorwyd Porth y Wrach ar y 13 o Orffennaf 2020. Mae'r cwynion wedi bod oherwydd swn a chyflymder ar y dwr. Pwrpas y cyfarfod oedd i geisio dod o hyd I gynllun rheoli y lansio.
Eglurodd Y Cynghorydd Iwan Huws ei fod yn gwisgo dwy hen, un fel Cynghorydd Cymuned a'r llall fel Swyddog Morwrol Ynys Môn.
Mae Moel y Don wedi bod yn le hanesyddol oherwydd y fferi. Mae gwaith adnewyddu'r jeti wedi bod yn y gorffennol gan ddefnyddio arian Ewrop. Hefyd mae yn le hanesyddol ar gyfer pysgotwyr. Er hynny mae defnyddo'r bwlch sydd yno yn galluogi'r cyhoedd lansio I'r dwr. Mae angen rheolaeth ar y mater.
Eglurodd yn fel Swyddog Morwrol ei fod wedi siarad gyda Plas Coch. Dywedodd hefyd nid oedd modd cau'r bwlch oherwydd bod angen mynediad gan y Gwylwyr y Glannau. Er hynny mae o amgylch Ynys Môn partneriaethau rhwng Adain Morwrol y Cyngor Sir a Chynghorau Cymuneol fel Llaneilian a Porth Llechog. Partneriaethau yw rhain lle mae rheolaeth ar fynediad i'r dwr. Mae Cynghorau Cymunedau i'r mynedfa i'r dwr yn geidwadwyr allweddi I folard sydd yn cael e godi. Mae pobl sydd angen Goriad yn gorfod prynu. Mae'r elw sydd yn cael ei wneud ar werthu y goriadau yn cael ei rannu rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned. Wrth gyflwyno goriau mae modd cael wybodaeth pellach o'r defnyddwyr oherwydd bod angen iddynt gofrestru a'u bod yn dangos tystysgrifau yswiriant ac yn y blaen.
Roedd Y Cynghorydd Martin Kelly-Roberts yn ymwybodol o'r problemau yn Moel y Don, yn ychwanegol i hyn roedd yn dweud bod y cynifer sydd yn defnyddio Moel y Don yng nghodi defnydd y ffordd wledig gan drafnidiaeth fawr fel trelars a four by fours ac yn y blaen. Yn sicr roedd yn gweld byddai partneriaeth gyda Chyngor Sir o fudd.

Penderfynwyd byddai y mater o hyn y mlaen yn cael ei ystyried rhwng Chyngor Cymuned Llanddaniel a Chyngor Ynys Môn yn unig.

Penderfynwyd byddai Adroddiad byr cael ei anfon at Glerc Cyngor Cymuned Llanddaniel er mwyn bod Iwan Huws yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Morwrol Cyngor Ynys Môn yn mynychu cyfarfod mis Ionawr 2021 y Cyngor er mwyn symud ymlaen a'r cynllun Partneriaeth Goriad.

Daeth y Cyfarfod i ben oddeutu 7:30 yn yr hwyr.

Heather Lynne Jones

Cyfarfod Safle – Torri Gwair (Cofnod gan Geraint Hughes Cyngor Gwynedd)

Yn fras iawn y penderfyniadau oedd fel a ganlyn

I Priffyrdd & Bwrdeistrefol ymgymryd â gwaith torri'r llecynnau gwelltog sydd wedi eu hamlygu gyda llinell glas ar y cynllun.

I YGC Ddod I gytundeb gyda'i ymgynghorwyr allanol i roi toriad i'r glaswellt , priddo ag troshadu y llecynau moel, hel cerrig, a thacluso yn gyffredinol yr ardaloedd sydd wedi ei hamlygu gyda llinell goch.

Yn ogystal â hyn trafodwyd bod cais i'r ymgynghorwr twyarchu ail ymweld ar gwaith sydd wedi cymryd lle ar y llecyn tir lle lleolir meinciau/ byrddau Tafarn y Garddfon.

Tebyg bod Cyngor Cymuned gyda'r bwriad i blannu / hau prysgwydd / blodau gwyllt ar lecyn tir rhwng y cae chwarae ar wal atal llifogydd sydd wedi ei hamlygu mewn lliw porffor ar y cynllun.

Amanda / Llifon a oes cais wedi ei dderbyn am hyn a hefyd beth yw statws defnydd tir o flaen y Garddfon "trwyddeu ayb" ??

Trafodwyd gyda Gwynfor ag Eifion lleoliad a maint adwy o'r newydd i mewn i'r Cae Chwarae Peldroed, Gwynfor I gadarnhau.

Ymateb i'r cais i newid mynedfa y Cae Chwarae:

Pnawn Da Geraint

Maer cais o newid lleoliad adwy yr cae pel droed wedi cael ei wrthod gan y stad felly fydd yn mund yn ol ger y ffordd wan .

Mae yna waith am gael ei wneud wsos nesa ar tir ger yr garddfon i drio sortio yr broblam dwr,

Nai drefny cyfarfod efo chi Geraint ar ol trefny efo contractwyr i dorri yr gwair.

Diolch yn fawr

Gwynfor H Roberts
Uwch Beiriannydd Prosiect
Senior Project Engineer